

# Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru Mis Medi 2022

**Diweddariad Mis Medi 2022**

I nifer, mae Medi yn cynrychioli dechrau newydd, dechrau tymor ac ystyried gwahanol gyfleoedd i sicrhau cynnydd a datblygu. Dyma pam ein bod yn amlygu digwyddiadau a gynhelir cyn bo hir yn y rhifyn hwn, ac yn cyfeirio at ymgynghoriadau a chyllid presennol gyda chymorth ein Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru.

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol (RET) Canolbarth Cymru yn un o bedwar tîm ymgysylltu rhanbarthol ar draws Cymru. Mae'r timau yn arwain at strategaeth ranbarthol gyffredinol er mwyn sicrhau cyweddu ac aliniad strategol gyda holl ffynonellau ariannol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ffynonellau ariannol eraill. Darllenwch ymlaen i gyfarfod y tîm a chlywed am eu rôl o fewn Tyfu Canolbarth Cymru.

Mae cylchlythyr hwn yn ffordd reolaidd o gyfathrebu gyda'n rhanddeiliaid/aelodau, a byddwn yn chwilio am ffyrdd o wella'r ffordd yr ydym yn cyfleu ein newyddion. Felly, os oes gennych chi unrhyw adborth, sylwadau neu newyddion perthnasol i'w cynnwys yma, hoffem glywed gennych.

Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

***Tîm Tyfu Canolbarth Cymru***

Darllenwch ymlaen i wybod rhagor am:

## Faith y mis

Erbyn heddiw, tŷ yw hwn, ond swyddfa bost Penwyllt oedd hi ym 1916. Pentref chwareli oedd Penwyllt yn y dyddiau a fu sy’n agos at Ogofâu Ffynnon Ddu. Dyma’r Warchodfa Natur Genedlaethol gyntaf yn y DU. Gyda dyfnder o 274 m (900 troedfedd) a hyd o 50 cilomedr (31 millteroedd o leiaf), dyma'r ogof ddyfnaf yn y DU a'r ail-hiraf yng Nghymru.

Am ragor o ddelweddau hanesyddol a ffeithiau diddorol ym Mhowys, dilynwch Archi fau Powys ar Facebook, Twitter neu Instagram.




*1 - O gasgliad Archifau Powys. Rhif Catalog. B/X/136/P/9*

Darllenwch ymlaen i wybod rhagor am:

- Cyfarfod â Thîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru
- Pa rôl y mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn ei gyflawni o fewn Tyfu Canolbarth Cymru?
- Cronfeydd UE: Buddsoddi yng Nghymru
- Digwyddiadau
- Cyfleoedd Cyllido
- Ymgynghoriadau

## Dyma'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru




Mae RET Canolbarth Cymru yn cyflawni'r swyddogaethau strategaeth, cynllunio ac ymgysylltu er mwyn cyflawni Gweledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru.

O ran ymgysylltu, mae'r Tîm:

- Yn hwyluso gweithgarwch ymgysylltu traws-sector ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn cyd-fynd ag uchelgais strategol y rhanbarth
- Yn rheoli ac yn cydlynu gweithgarwch Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ac yn hyrwyddo elfennau cadarnhaol cydweithio.
- Yn cynnig pwynt cyfeirio a chyngor i randdeiliaid mewnol ac allanol wrth sicrhau y caiff canlyniadau eu sicrhau ar draws Canolbarth Cymru, sy'n cyd-fynd ag amcanion ac uchelgais strategol y rhanbarth.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Claire Miles, Rheolwr Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru, Claire.miles@ceredigion.gov.uk

## Buddsoddiad Rhanbarthol



Darllenwch ein taflen '[Buddsoddi mewn Dyfodol mwy Disglair i Ganolbarth Cymru]' sy'n adrodd am astudiaethau achos llwyddiannus, sy'n dangos enghreifftiau o fuddsoddiad rhanbarthol y mae RET Canolbarth Cymru a Thyfu Canolbarth Cymru wedi bod yn ymwneud ag ef er mwyn helpu Canolbarth Cymru i greu dyfodol mwy disglair.

Mae esiamplau yn cynnwys:

- **Canolfan Fwyd Cymru - Prosiect HELIX**

Mae Canolbarth Cymru yn gartref i Ganolfan Bwyd Cymru, canolfan technoleg bwyd benodedig sy'n cynnig cyngor, gwasanaethau technegol a hyfforddiant i fusnesau newydd, busnesau bach a chanolig a chynhyrchwyr bwyd sy'n bodoli eisoes, ac fe'i lleolir ym mhentref Horeb, ger Llandysul. Mae Canolfan Bwyd Cymru yn bartner allweddol ym Mhrosiect Helix – menter strategol £21 miliwn a ariannir trwy RDP, a gynhelir ar draws Cymru gyfan, ac a ddarparir gan Arloesi Bwyd Cymru.

- **ArloesiAber - Amgylchedd ar gyfer cydweithio rhwng byd busnes a'r byd academaidd**

Bydd y buddsoddiad o £40.5m trwy ERDF yn datblygu'r gymuned wyddonol sefydledig a leolir yn y rhanbarth yn y barod; a chan weithio mewn partneriaeth gydag endidau cyhoeddus a phreifat, bydd yn ceisio rhoi sylw i rai o sialensiau mawr pennaf yr unfed ganrif ar hugain, gan gynnwys lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, diogelwch bwyd a dŵr ac ynni adnewyddadwy.

- **Banc Datblygu Cymru - Camlas Vets**

Diolch i Fenthyciad Cronfa Fusnes Cymru o £80,000 trwy gyfrwng Banc Datblygu Cymru, llwyddodd Camlas Farm Vets i symud i safe mwy o faint, a fydd yn eu galluogi i dyfu eu busnes a chynnig ystod ehangach o wasanaethau. Mae eu canolfan newydd yn caniatáu i ffermwyr lleol ddod ag anifeiliaid i'w safe yn ôl yr angen, a defnyddiwyd rhywfaint o'r cyllid hefyd i greu ystafell law-drin newydd, sy'n addas ar gyfer anifeiliaid mwy o faint fel mamogiaid, gwartheg a cheffylau.

- **Cynhwysiant Gweithredol - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. (Y Drenewydd )**

Rheolir y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol gan CGGC, gyda chymorth £21m ar ffurf cyllid gan UE. Ei nod yw lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru a gwella cyfogadwyedd pobl ddifreintiedig, ac mae ganddi elfen Ieuenctid benodedig i weithio gyda phobl dan 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyfogaeth na hyfforddiant (NEET).

- **Mynyddoedd Cambrian - Dyfodol Cambrian Futures**

Mae prosiect Dyfodol Cambrian Futures yn brosiect a ariannir gan RDP sydd yn scynorthwyo datblygiad cymunedau gwledig cynaliadwy trwy ddarparu cyfleoedd twristiaeth newydd. Mae'r prosiect wedi creu 'llwybr astrodwristiaeth' hefyd, gan gysylltu naw safe sy'n arddangos awyr ysblennydd y nos ym Mynyddoedd Cambria

## Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghanolbarth Cymru

Ariannir RET yn rhannol gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd trwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ynghyd â Chyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.




*2 - Dyma'r ffigurau ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol UE 2007-2013 a 2014-2020 o 31 Gorffennaf 2022 ar gyfer Canolbarth Cymru.*

## Digwyddiadau

Dyma rai digwyddiadau sydd ar y gweill i'w hystyried:

- Mae Syniadau Mawr Cymru yn mynd ar Daith! - 3 Hydref, Llandrindod. Ewch i [llyw.cymru/syniadaumawr](llyw.cymru/syniadaumawr) i archebu eich lle.




*3 - llyw.cymru/syniadaumawr*

## Cyfleoedd Ariannu

**Horizon Europe: rhaglen ymchwil ac arloesi Ewropeaidd**

Horizon Europe yw'r rhaglen trawswladol fwyaf erioed sy'n cefnogi ymchwil ac arloesi. Mae'n cael ei rhedeg gan y Comisiwn Ewropeaidd tan 2027, ac mae ganddi gyllideb o £100 miliwn.

Mae'r DU yn dal yn gymwys i gymryd rhan yn Horizon Europe.

Ymwelwch â https://llyw.cymru/horizon-europe-rhaglen-ymchwil-ac-arloesi-ewropeaidd am fwy o wybodaeth ac sut i wneud cais.

**Cystadleuaeth ArloesiAber - AberInnovation Solutions Catalyst**




Mae gan gwmnïau'r DU gyfle i ennill taleb gwerth hyd at £30,000 i gael mynediad i gyfleusterau o'r radd flaenaf sydd ar Arloesi Aber ac arbenigedd academaidd Prifysgol Aberystwyth. Mae'r gystadleuaeth yn agored i fusnesau o bob maint, gan ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau mewn bwyd a diod, economi gylchol ac ailddefnyddio gwastraff, amaeth-dechnoleg a rheoli amgylcheddol.

Am fwy o wybodaeth ac sut i wneud cais, ewch i wefan ArloesiAber.

Dyddiad cau yw **14 Hydref 2022.**

Bydd digwyddiad briffio i sefydliadau sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am y gystadleuaeth yn cael ei gynnal yn rhithiol ar **21 Medi am 10am**. Cofrestrwch yma.

**Ariannu: SCoRE Cymru**

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i Gymru ar lwyfan y byd ac yn ymrwymo i sicrhau 'cysylltiadau economaidd ac ymchwil agosach â'r UE'. Mae SCoRE Cymru yn menter i annog cydweithrediad economaidd â rhanbarthau Ewropeaidd Baden Württemberg, Llydaw a Fflandrys. Mae'r gyllideb a ddyrennir ar gyfer y fenter hon hyd at £120,000. Yn agored i geisiadau o 14 Mehefin ymlaen, gan ganolbwyntio ar wariant erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Manylion llawn ar gael yma.

Anogir ymgeiswyr i drafod eu cynigion gyda Thîm Horizon Europe cyn eu cyflwyno (ebost: HorizonEurope@llyw.cymru). Efallai y bydd cyllid SCoRE Cymru hefyd ar gael ar gyfer ceisiadau nad ydynt yn cyd-fynd â nodau'r fenter hon



*4 - Stuttgart Photo - Bruno Kelzer, Rennes Photo - Sebastian Brito, Antwerp Photo - Daniels Joffe (Unsplash)*

**Yn cofrestru nawr: cyrsiau MADE Cymru wedi'u hariannu'n llawn sy'n dechrau ym mis Hydref**



Menter Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yw MADE (Gweithgynhyrchu Peirian Dylunio Uwch) Cymru sydd wedi'i chynllunio i gefnogi ac uwchsgilio'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Mae gan MADE Cymru y 3 cwrs canlynol, wedi cael eu hariannu'n llawn yn dechrau ar **7 Hydref**:

Gwelliant Parhaus gyda Diwydiant 4.0 (Lefel 5)Gweithgynhyrchu Clyfar gyda Diwydiant 4.0 (Lefel 7)Gwella Busnes gyda Rheoli Arloesedd (Lefel 6/7 yn dibynnu ar leoliad)Mae pob un cwrs wedi 'i achredu gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Darganfyddwch mwy trwy glicio yma.


*Mae MADE Cymru yn gyfres o dair rhaglen a ddyluniwyd i lywio sefydliadau drwy Ddiwydiant 4.0 trwy ddatblygu a chynyddu sgiliau ymchwil cydweithredol. Ariennir yn rhannol/Llawn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop/Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Darperir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

**Hyfforddiant Deunyddiau a Gweithgynhyrchu gan brosiect METaL**

Bydd Prosiect METaL (Hyfforddiant Deunyddiau a Gweithgynhyrchu) gyda Phrifysgol Abertawe yn dod i ben cyn bo hir; y dyddiad olaf ar gyfer cofrestriadau newydd fydd **9 Rhagfyr 2022**.

Wedi'i ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yr UE, trwy Lywodraeth Cymru, nod Prosiect METaL yw mynd i'r afael â phrinder sgiliau yn y gweithlu deunyddiau a gweithgynhyrchu a fydd yn y pen draw yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd i ddiwydiant Cymru.

Mae pob modiwl ar-lein yn rhad ac am ddim ac ar gael i gofrestru ar unwaith.




Edrychwch ar [gatalog y cwrs](#) am ragor o wybodaeth.

## Ymgynghoriadau

**Strategaeth arloesi i Gymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am eich barn ar y strategaeth arloesi drafft i Gymru.

Bydd y strategaeth yn nodi blaenoriaethau ar gyfer arloesi yng Nghymru.

Bydd yn cydnabod y rôl bwysig y mae arloesi yn ei chwarae yn:

- llywodraeth
- busnesau
- y trydydd sector
- sefydliadau academaidd ac ymchwil.

Cliciwch ar y ddolen i ddarllen dogfen yr ymgynghoriad: **Strategaeth arloesi i Gymru**

**Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 28 Medi 2022.**

**Cam nesaf rhaglen gyllid ar gyfer ymchwil Sêr Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn ar gynigion ar gyfer cam nesaf Sêr Cymru, sy'n ceisio darparu cyfleoedd ariannu a fydd yn gwella gallu a chydweithio ar ymchwil ledled Cymru.

Cliciwch ar y ddolen i ddarllen dogfen yr ymgynghoriad: https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html

**Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 19 Hydref 2022**

## Edrych Ymlaen

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

[https://twitter.com/growingmidwales](https://twitter.com/growingmidwales)

[www.linkedin.com/company/growing-mid-wales](http://www.linkedin.com/company/growing-mid-wales)

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e-bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at growingmidwales@ceredigion.gov.uk.

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds